| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 28 Medi 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Ymholiadau Archwiliad 2015/16** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**
Cyflwyno'r Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**
Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), fel archwilwyr allanol a benodir gan CSDd, ddyletswydd i gael tystiolaeth o sut mae'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn CSDd) yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer atal a chanfod twyll. Mae'r llythyr yn nodi'r gofynion a manylion yr ymatebion wedi'u cynnwys fel **Atodiad 1**.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**
Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cadarnhau'r ymatebion yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn yn ffurfiol.

**4. Manylion yr Adroddiad**
Mae manylion ymatebion y rheolwr (Richard Weigh, Pennaeth Cyllid) a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Cyng Jason McClellan, Cadeirydd CGC) wedi eu nodi yn Atodiad 1. I grynhoi, mae'r ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd llywodraethu canlynol:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i nodi a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd bod yr holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol wedi cael eu dilyn.
- A oes unrhyw ymgyfreithiad neu hawliadau posibl a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
- Prosesau i nodi, awdurdodi, cymeradwyo, galw i gyfrif a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**
Mae'r broses archwilio allanol blynyddol yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad**
Amherthnasol.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**
Ceisiodd Swyddfa Archwilio Cymru ymatebion gan Richard Weigh fel y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151, a'r Cyng Jason McClellan fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
Mae'n bwysig bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb ar gyfer atal a chanfod twyll ym mhob agwedd ar ei waith. Mae'r sicrwydd a geisir gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â thwyll yn ffurfio gwiriad defnyddiol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith i nodi a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**
**Y risg yw y gallai twyll arwain at gamddefnyddio asedau'r Cyngor neu drin neu gam-ddatgan y datganiadau ariannol.** Mae'r ymatebion gan y rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn helpu i ddangos bod prosesau ar waith ar gyfer nodi ac ymateb i'r risg o dwyll a bod rheolaethau mewnol digonol yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

11. **Pŵer i wneud Penderfyniad**
Mae'r Safon Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (y DU ac Iwerddon) 240 (Awdurdod Diogelu Annibynnol 240) yn nodi bod y prif gyfrifoldeb ar gyfer atal a chanfod twyll yn gyfrifoldeb ar y rheolwyr a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae Awdurdod Diogelu Annibynnol 240 hefyd yn nodi'r gofyniad am archwiliad allanol i gael dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.